RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
12/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
22/02/2024

# Gwerthusiad peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru: adroddiad blynyddol, 2023 i 2024 (adroddiad cryno)

This document is available in English

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-598-1

Gwerthusiad peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru: adroddiad blynyddol, 2023 i 2024 (adroddiad cryno)

Awduron: Sally Holland[1], David Westlake[1], Louise Roberts[1], Dimitris Vallis[2], Harriet Lloyd[1], Michael Sanders[2], Vibhor Mathur[1], Zoe Bezeczky[1], Kate E Pickett[4,] Matthew Johnson[5], Rod Hick[6], Jonathan Ablitt[1], Elizabeth Schroeder[3], Patrick Fahr[3] and Stavros Petrou[3]

1. Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
2. The Policy Institute, Kings College London
3. Nuffield Department of Primary Care Health Sciences, University of Oxford
4. Department of Health Sciences, University of York
5. Department of Social Work, Education and Community Wellbeing, Northumbria University
6. Caerdydd: Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd.

Adroddiad Ymchwil Llawn:  S; Westlake, D; Roberts, L; Vallis, D; Lloyd, H; Sanders, M; Mathur, V; Bezeczky, Z;, Pickett, K; Johnson, M; Hick, R; Schroeder, E; Fahr, P (2024) Gwerthusiad peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru: adroddiad blynyddol 2023 i 2024. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 12/2024.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-incwm-sylfaenol-ir-rhai-syn-gadael-gofal-yng-nghymru-adroddiad-blynyddol-2023-2024

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Carly Jones

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost  YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru

## 1. Cyflwyniad

1.1. Lansiwyd y peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy’n Gadael Gofal yng Nghymru ('y peilot') ym mis Gorffennaf 2022. Cafodd y taliadau cyntaf i bobl ifanc 18 oed sy'n gymwys ar gyfer y cynllun eu gwneud ym mis Awst 2022 (Llywodraeth Cymru, 2022)[1].

1.2. Mae'r gwerthusiad o'r cynllun bellach yn ei ail flwyddyn. Dyma'r adroddiad cyntaf o'r adolygiad.

**Trosolwg o'r peilot**

1.3. Mae'r peilot yn talu incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal am ddwy flynedd. Mae rhagor o fanylion am natur y peilot ar gael gan Lywodraeth Cymru Peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy’n gadael gofal: trosolwg o'r cynllun | LLYW.CYMRU.

1.4. Roedd y cynllun peilot ar agor i bobl ifanc gofrestru rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 ar gyfer pawb sydd â 18fed pen-blwydd yn y cyfnod hwnnw. Cyfanswm y taliad incwm sylfaenol yw £1,600 gros y mis, sy’n cael ei drethu ar darddiad i adael derbynwyr yn derbyn swm net o £1,280 y mis.

1.5. Mae pobl ifanc yn y peilot yn parhau i dderbyn y gefnogaeth gan eu hawdurdod lleol y mae pob person sy'n gadael gofal fel arfer yn ei dderbyn. Maent hefyd yn cael cynnig cymorth ychwanegol o ran rheoli cyllid.

1.6. Cytunodd 97% o'r rhai a oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun peilot i gymryd rhan ynddo. Roedd hyn yn gyfanswm o 635[2] o bobl ifanc erbyn 31ain Gorffennaf 2023[3].

**Trosolwg o’r gwerthusiad**

1.7. Dechreuodd y gwerthusiad ym mis Tachwedd 2022. Bydd yn dod i ben yn 2027 fel y gellir casglu data ar effeithiau tymor hwy. Mae'r cwestiynau ymchwil fel a ganlyn:

- Cwestiwn Ymchwil 1: Beth yw effaith y peilot?
- Cwestiwn Ymchwil 2: A yw'r cynllun peilot yn cael ei weithredu fel y bwriadwyd?
- Cwestiwn Ymchwil 3: Sut mae'r peilot yn cael ei brofi?
- Cwestiwn Ymchwil 4: Sut mae'r peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru?
- Cwestiwn Ymchwil 5: Pa mor gost-effeithiol yw'r peilot?

---

[1] Cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy’n gadael gofal: trosolwg o’r cynllun | Llywodraeth Cymru

[2] Yn dilyn cyhoeddi'r data monitro gan Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2023 (Llywodraeth Cymru, 2023b), nodwyd chwe pobl wnaith ymuno'r peilot yn hwyr gan arwain at ffigurau diwygiedig o 641 o gyfranogwyr peilot.ae datganiad ystadegol diweddaraf Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu cofrestriadau hyd at a chan gynnwys 31ain Gorffennaf 2023.

[3] Ystadegau Peilot Incwm Sylfaenol i bobl sy’n gadael gofal yng Nghymru | Llywodraeth Cymru

1.8. Mae'r gwerthusiad wedi'i gynllunio o amgylch pum maes craidd o'r enw 'pecynnau gwaith'. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi'n fyr fel a ganlyn:

**a. Cyd-gynhyrchu:** Mae grŵp o oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyngor i'r astudiaeth. Gwnaed nifer o newidiadau i'r astudiaeth yn dilyn eu cyngor.

**b. Gwella theori:** Mae'r astudiaeth yn werthusiad sy'n seiliedig ar theori, ac mae'r gwerthusiad yn anelu at gynyddu dealltwriaeth o sut a pham y gallai'r peilot gael yr effeithiau arfaethedig ar gyfer gwahanol bobl dan sylw neu beidio.

**c. Gwerthusiad o'r effaith:** Mae effaith y peilot ar fywydau pobl ifanc yn cael ei fesur mewn perthynas ag iechyd a lles, eu cyllid, eu hymgysylltiad ag addysg a chyflogaeth ac ymgysylltu â'u cymunedau.

**d. Gweithredu a gwerthuso prosesau:** Mae'r rhan hon o'r ymchwil yn archwilio sut mae'r peilot yn cael ei weithredu, ei gyflawni'n barhaus, a sut mae'r cynllun yn cael ei brofi a'i weld gan y rhai dan sylw.

**e. Gwerthusiad economaidd:** Bydd y gwerthusiad economaidd yn ystyried a yw'r peilot yn cynrychioli gwerth am arian o ran y canlyniadau a gyflawnwyd.

**Nodau a chwmpas yr adroddiad cryno hwn**

1.9. Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf yn cwmpasu tri maes:

**a)** disgrifiad o'r bobl ifanc sy'n derbyn yr incwm sylfaenol, gyda data wedi'i dynnu o ffurflen gofrestru ac arolwg.

**b)** Cam cyntaf y gwaith theori. Mae'r dadansoddiad a adroddir yma yn tynnu ar lenyddiaeth a dogfennau polisi cyhoeddedig gyda'r nod o ddeall sut y bwriedir i'r cynllun weithio i gyflawni ei nodau.

**c)** Safbwyntiau a phrofiadau gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r cynllun. Mae'r adran hon yn tynnu ar grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda 41 o weithwyr proffesiynol yng nghamau cynnar y peilot.

1.10. Mae'r prif adroddiad yn darparu gwybodaeth fanwl am y dulliau ymchwil a ddefnyddir i gasglu a dadansoddi'r data. Yn yr adroddiad cryno hwn, dim ond canfyddiadau sy'n cael eu hadrodd.

1.11. Yn yr un modd, mae'r prif adroddiad yn cynnwys canfyddiadau manylach, gyda chrynodebau trosfwaol wedi'u cynnwys yma yn unig.

## 2. Canfyddiadau: Gwybodaeth sylfaenol am dderbynwyr y peilot

2.1 Mae'r canfyddiadau cynnar hyn yn seiliedig ar ddata cofrestru Llywodraeth Cymru ac arolwg cychwynnol a gynhaliwyd gyda'r rhai sy'n derbyn yr incwm sylfaenol. Roedd yr arolwg a ddefnyddiwyd yn fersiwn wedi'i addasu o arolwg y mudiad trydydd sector Coram Voice 'Eich Bywyd y tu Hwnt i Ofal', a weinyddir ganddynt ar ran Llywodraeth Cymru. Ar adegau, cymharir y canlyniadau hyn â chanfyddiadau arolygon 'Your Life Beyond Care' a gynhaliwyd yn Lloegr gan Coram Voice[4].

### Crynodeb o'r arolwg ar gyfer derbynwyr incwm sylfaenol

2.2 Cyfanswm yr ymatebion i'r arolwg oedd 412 allan o 641[5] o dderbynwyr Peilot Incwm Sylfaenol Cymru, gan roi cyfradd ymateb o 64 y cant.

2.3 Oedran cyfartalog yr ymatebwyr ar adeg eu cwblhau oedd 18.3 oed. Mae hyn yn golygu bod llawer o ymatebwyr wedi derbyn ychydig fisoedd o daliadau incwm sylfaenol ar yr adeg y gwnaethant gwblhau'r arolwg.

### Y garfan o bobl ifanc sy'n derbyn incwm sylfaenol

2.4 Mae dynion yn cael eu gorgynrychioli yn y garfan (51 y cant).

2.5 Mae 14 y cant yn hunan-adrodd eu bod yn anabl. Mae hyn ychydig yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru (12.7 y cant).

### Cynrychioldeb canfyddiadau'r arolwg

2.6 Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o ymateb i'r arolwg.

2.7 Roedd y rhai sy’n disgrifio eu hethnigrwydd fel ethnigrwydd cymysg neu 'arall' yn llai tebygol o ymateb na'r rhai sy’n disgrifio eu hethnigrwydd fel o gefndiroedd Asiaidd, Du neu Gwyn.

2.8 Roedd pobl ifanc anabl mor debygol â phobl ifanc nad oeddent yn anabl o ymateb i'r arolwg.

### Canfyddiadau'r arolwg

2.9 Yn gyffredinol, ac yn debyg i arolygon blaenorol o bobl ifanc sy’n gadael gofal, mae mesurau lles yn dangos bod y garfan beilot wedi profi lles is na'r boblogaeth gyffredinol.

[4] What Makes Life Good Report | Coram Voice

[5] Yn dilyn cyhoeddi'r data monitro gan Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2023 (Llywodraeth Cymru, 2023b), nodwyd chwe pobl wnaith ymuno'r peilot yn hwyr gan arwain at ffigurau diwygiedig o 641 o gyfranogwyr peilot.ae datganiad ystadegol diweddaraf Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu cofrestriadau hyd at a chan gynnwys 31ain Gorffennaf 2023.

2.10 Yn debyg i garfannau eraill o bobl ifanc sy’n gadael gofal, mae cyfran y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant (36 y cant) tua thair gwaith yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol (12.6 y cant yn 2021).[6]).

2.11 Mae'r canlyniadau'n dangos bod 42 y cant o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn astudio adeg yr arolwg, gyda thua 21.5 y cant mewn gwaith neu hyfforddiant.

2.12 Pan ofynnwyd iddynt am sut yr oeddent yn ymdopi'n ariannol, dangosodd derbynwyr incwm sylfaenol fwy o ganfyddiadau cadarnhaol nag mewn arolygon cymaradwy o bobl ifanc sy’n gadael gofal. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg eisoes wedi derbyn rhai taliadau incwm sylfaenol cyn cwblhau'r arolwg.

2.13 Ar adeg yr arolwg, roedd mwy na 50 y cant yn byw gyda ffrindiau/perthnasau neu eu gofalwyr maeth ac roedd tua 35 y cant yn byw mewn tai â chymorth neu gartref yr oeddent yn ei rentu. Nododd tua 4.4 y cant eu bod yn ddigartref (gan gynnwys 'syrffio soffa'). Ar y cyfan, nododd tua 3 allan o 4 eu bod yn teimlo bod lle'r oeddent yn byw ar adeg yr arolwg yn iawn iddyn nhw.

2.14 Ar gyfraddau uwch na'r boblogaeth gyffredinol o bobl ifanc 18 oed, roedd 8.5% yn rhieni neu'n disgwyl babi.

2.15 Dywedodd 87 y cant fod ganddynt rywun y gallent ymddiried ynddynt yn eu bywydau.

2.16 Roedd amrywiaeth eang o gyfnodau o amser mewn gofal, yn ôl y disgwyl yn y garfan pobl sy'n gadael gofal, ond roedd tua 60 y cant wedi treulio mwy na phedair blynedd mewn gofal cyn eu bod yn 18 oed.

2.17 Dywedodd bron i 80 y cant y gallent ymddiried yn eu Cynghorydd Pobl Ifanc y rhan fwyaf neu'r holl amser.

## 3. Canfyddiadau: Theori gychwynnol y rhaglen

3.1 Mae'r prif adroddiad yn manylu ar fodel rhesymeg ar gyfer y peilot incwm sylfaenol, sy'n dangos bod ganddo bedair prif gydran:

- faint o arian
- rheoleidd-dra taliadau
- diamodrwydd
- cymorth gyda chyllid

3.2 Mewn theori, dylai'r tair elfen gyntaf gyfrannu at leihau ymdeimlad pobl ifanc o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd, gan ganiatáu iddynt gynllunio ac ystyried dyfodol tymor hwy. Dylai'r elfen olaf, cymorth gyda chyllid, gynyddu hyder a gwybodaeth mewn perthynas â rheolaeth ariannol.

[6] Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET): 2021 | LLYW.CYMRU

3.3 Tybir bod y gallu i ddiwallu anghenion sylfaenol yn haws, a mwy o incwm gwario, yn cynyddu ymdeimlad derbynwyr o ymreolaeth, effaith a sicrwydd. Mewn geiriau eraill, damcaniaethir yr incwm i gynyddu ymdeimlad o hunanreolaeth a'r gallu i wneud dewisiadau. Dylai gynyddu'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig i'r rhai sy'n derbyn yr arian a dod â mwy o amser i dreulio datblygu perthynas ag eraill. Gall hyn gynnwys gweithgareddau gofalu neu wirfoddoli.

3.4 Yn fwyaf sylfaenol, dylai'r incwm sylfaenol leihau tlodi yn uniongyrchol yn y grwpiau hyn.Mae'r holl elfennau hyn yn gysylltiedig â llesiant cynyddol.

3.5 Un effaith negyddol bosibl fyddai colli cymhwysedd i rai gwasanaethau am ddim sydd ar gael i bobl ifanc ar rai budd-daliadau, fel profion golwg a gwiriadau deintyddol.

3.6 Bydd y ddamcaniaeth rhaglen gychwynnol hon yn cael ei phrofi a'i datblygu ymhellach trwy gasglu data yn rhannau eraill y gwerthusiad.

## 4. Canfyddiadau: Safbwyntiau gweithwyr proffesiynol o beilot incwm sylfaenol Cymru i bobl ifanc sy’n gadael gofal yng Nghymru a phrofiadau cynnar o gefnogi derbynwyr.

**Safbwyntiau proffesiynol o'r cynllun Peilot Incwm Sylfaenol**

4.1 Roedd gweithwyr proffesiynol yn gyffredinol gefnogol i'r incwm sylfaenol sy'n cael ei dreialu gyda phobl ifanc sy’n gadael gofal, er bod rhai wedi mynegi pryderon am fregusrwydd rhai pobl ifanc.

4.2 Roedd barn gymysg ynghylch a oedd pobl ifanc 18 oed yn grŵp oedran addas ar gyfer y peilot, ac am y swm sy'n cael ei gynnig. Er bod rhai yn gefnogol i'r oedran ac yn teimlo bod y swm yn realistig, roedd eraill yn meddwl bod derbynwyr yn rhy ifanc a swm yr arian yn rhy uchel i'r grŵp oedran hwn.

4.3 Mynegodd llawer bryderon ynghylch bod y taliadau'n ddiamod, gyda mwyafrif yn mynegi'r farn y dylid bod wedi rhoi disgwyliad o ymgysylltu â chyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, neu gyda gwasanaethau cymorth yn unig, ar waith.

**Profiadau cynnar o gefnogi pobl ifanc sydd wedi cofrestru ar y cynllun peilot incwm sylfaenol.**

4.4 Nododd rhai gweithwyr proffesiynol lai o ddibyniaeth ar gymorth gan rai o'r bobl ifanc.

4.5 Roedd adroddiadau eang o fwy o gyfleoedd a dewisiadau oherwydd yr incwm sylfaenol, gan gynnwys dysgu gyrru, gwneud dewisiadau am gyflogaeth ac ail-hyfforddi, cael gwyliau tramor cyntaf a gallu cymdeithasu â chyfoedion.

4.6 Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn ystyried bod yr incwm sylfaenol wedi atal rhai pobl ifanc rhag ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a gwaith.

4.7 Roedd gweithwyr proffesiynol yn tynnu sylw at brofiadau amrywiol yn ôl amgylchiadau, gyda'r rhai sy'n dal i fyw gyda gofalwyr maeth yn aml yn cael eu hystyried fel rhai sy'n rheoli eu cyllid a'u cyfleoedd yn dda.

4.8 Mae rhai grwpiau o bobl ifanc yn wynebu llawer mwy o bwysau ariannol nag eraill. Yn benodol, mae gan y rhai sydd mewn llety â chymorth gostau tai uwch, ac weithiau mae Plant ar eu Pen eu hunain yn Ceisio Lloches yn wynebu biliau cyfreithiol ansicr oherwydd bod yr incwm sylfaenol yn rhy uchel i'w galluogi i fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol.

4.9 Yn gyffredinol, mae natur amrywiol amgylchiadau a chefndiroedd pobl ifanc yn golygu mai canfyddiadau cynnar gweithwyr proffesiynol o'r cynllun yw bod gan bobl ifanc ystod eang o ymatebion i'r incwm. Dywedwyd bod rhai yn ffynnu trwy'r cyfleoedd a ddarperir gan yr incwm, tra disgrifiwyd eraill fel rhai sy'n ei chael hi'n anodd oherwydd gwendidau a oedd ganddynt cyn derbyn yr incwm. Roedd hyn yn cynnwys camddefnyddio sylweddau a bod mewn perthynas camfanteisiol.

## 5. Casgliad

5.1. Mae'r peilot yn ymyrraeth radical ac mae'r adroddiad hwn yn amlinellu rhai o gymhlethdodau ei roi ar waith gyda grŵp gwasgaredig yn ddaearyddol o oedolion ifanc sy'n wynebu ystod o rwystrau o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Bydd yr adroddiad blynyddol nesaf yn cynnwys canfyddiadau ansoddol am brofiadau derbynwyr a'u cefnogwyr sy'n oedolion. Lles, safbwyntiau, profiadau a chanlyniadau'r bobl ifanc hynny yw'r elfennau pwysicaf o'r cynllun peilot a'i weithrediad.